

Pecyn cymorth hawdd a sydyn Helo Blod i ddatblygwyr meddalwedd dwyieithog

Bydd y pecyn cymorth syml hwn yn dy helpu i sicrhau bod dy brosiect TG yn cynnig gwasanaeth gwych yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r ddogfen yn berthnasol i unrhyw un neu unrhyw sefydliad sy'n awyddus i greu profiad gwych i'w defnyddwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Efallai dy fod wrthi'n cynnal proses gaffael ar gyfer gwasanaeth sydd angen bod yn ddwyieithog – gall y ddogfen hon dy helpu gyda hynny hefyd. Cofia fod cefnogaeth amlieithog yn gyffredin yn rhyngwladol yn barod, felly fe ddylai defnyddio'r canllaw hwn fod yn ddigon hawdd. Cofia hefyd gynnwys cefnogaeth i'r Gymraeg a'r Saesneg (dyma beth ry'n ni'n ei alw'n 'Gallu Dwyieithog') ymysg y gofynion sy'n cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf, e.e. hygyrchedd, diogelwch a deddfwriaeth.

Ry'n ni wedi ysgrifennu'r ddogfen hon gyda chymorth Interceptor Solutions Ltd. Cysyllta os bydd gyda ti wybodaeth ychwanegol neu adborth a allai ein helpu i'w datblygu yn y dyfodol. Os wyt ti'n teimlo y gallai'r ddogfen fod yn gliriach, neu nad yw'r system dan sylw'n gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog, beth am gael golwg ar [ganllawiau manwl Comisiynydd y Gymraeg](#). Os na ellid di ddod o hyd i ateb yn y Canllawiau, e-bostia heloblod@llyw.cymru inni gynnig help llaw.

Cofia, mae'n bosibl hefyd dod o hyd i ffordd o wneud rhywbeth bron bob amser, ac os nad yw'n bosibl, efallai y byddwn ni'n gallu gweithio gyda'r darparwr i gael hyd i ateb. Cofia hefyd – mae gan Helo Blod restr hir o adnoddau technoleg Cymraeg a dwyieithog y gelli di eu defnyddio a'u haildefnyddio—technoleg lleferydd, mapiau Cymraeg a phethe i helpu cyfieithu a llawer mwy. Picia draw i www.llyw.cymru/heloblod i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Ry'n ni eisiau dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Mae'n uchelgais mawr—ac mae gyda ni gynlluniau mawr i gyflawni hynny. Mae technoleg yn rhan enfawr o hyn, ac bydd y 'canllaw hwn yn gymorth i ni gyrraedd y nod.

Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0.

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llyw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwr i ganfod ffordd.

Rhestr termau

Term	Diffiniad
Rhaglen	<p>'Rhaglen feddalwedd' (rhaglen neu ap wedi ei dalfyrru) yw meddalwedd cyfrifiadurol wedi'i gynllunio i gyflawn grŵp o swyddogaethau, tasgau neu weithgareddau cyd-gysylltiedig er budd y defnyddiwr.</p> <p>Yn y ddogfen hon, ry'n ni'n sôn am o 'raglenni' mewn ystyr eang gan gynnwys gwefannau. Mae'r rhain yn cynnwys pob un sydd â rhyngwyneb iaith naturiol neu sy'n rheoli/prosesu gwybodaeth iaith naturiol.</p>
Dwyieithog	Pan ry'n ni'n dweud 'dwyieithog' yn y ddogfen yma, ry'n ni'n golygu y gallu rhaglen feddalwedd i gefnogi dwy iaith naturiol mewn modd cyfatebol. Yn achos Helo Blod, cyfeirir at y Gymraeg a Saesneg yn benodol, er y gellir estyn yr egwyddorion i unrhyw sefyllfa amlieithog hefyd.
Manylion	Mae hyn yn golygu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gallwch ddehongli a gweithredu'r gofynion. Ystyriwch hwn fel rhan o ddiffiniad y gofyniad.
Gofynion	Gyda'r 'manylion', mae'r gofynion yn diffinio ymddygiad a gallu rhaglen er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.
Blaenoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Rh(aid): Hanfodol. Os na chaiff hyn ei ddiwallu, ni ellir ystyried bod y rhaglen yn ddwyieithog. • D(ylid): Os na chaiff y gofyniad hwn ei ddiwallu, mi all y rhaglen ddiffygiol yn ei gallu dwyieithog. • G(ellid): Pan fo'n bosibl dylid diwallu'r gofynion hyn er mwyn darparu'r gallu dwyieithog gorau.
Asedau iaith	Y geiriad a ddefnyddir ar labeli, hysbysiadau, ffurflenni, ac ati mewn rhyngwyneb meddalwedd.
Iaith naturiol	Testun neu lais ieithoedd dynol a ddefnyddir mewn neu gan raglenni.
Rhyngwyneb Defnyddiwr	Sut mae defnyddiwr yn rhyngweithio â'r rhaglen. Fel rheol mae hyn yn golygu testun neu lais. Pan ry'n ni'n dweud 'rhyngwyneb defnyddiwr' neu 'RHD' yn y ddogfen yma, ry'n ni'n golygu unrhyw fath o rhyngwyneb defnyddiwr sy'n defnyddio iaith naturiol.

1. Gofynion an-swyddogaethol

Yn y ddogfen hon, ry'n ni'n sôn am 'raglen' mewn ystyr eang, sy'n cynnwys gwefannau. Mae'r rhain yn cynnwys popeth sydd â rhyngwyneb 'iaith naturiol' neu sy'n rheoli/prosesu gwybodaeth am iaith.

Nid yw'r gofynion hyn yn nodi ymddygiad swyddogaethol y rhaglen meddalwedd. H.y. maent yn ymwneud â'r prosiect, yr ansawdd ieithyddol, y broses weithredu ac ati, ac nid unrhyw dasg weithredol benodol y gall y rhaglen ei chyflawni.

Wyt ti'n rheoli prosiect technoleg a allai ddefnyddio'r pecyn cymorth yma? Cofia sicrhau beth yw'r sefyllfa gyfreithiol cyn cynllunio neu ddechrau ar unrhyw waith (h.y. beth yw goblygiadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg neu Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y gwaith). Wrth fynd drwy bob gofyniad isod, bydd angen i ti gael sicrwydd, yng nghyd-destun yr uchod, a yw'r gofyniad yn 'Rhaid', 'Dylid' neu'n 'Gellid'. Os wyt ti'n defnyddio'r ddogfen fel rhan o broses caffael, cofia wneud bywyd darpar gontractwyr yn hawdd a chwblhau'r golofn blaenoriaeth cyn estyn gwahoddiad cyhoeddus am gontractwyr.

ALLWEDD:

Rh = Rhaid

D = Dylid

G = Gellid

Id	Gofynion	Blaenori aeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
1.1	Gofynion sy'n ymwneud gyda gallu dwyieithog a chymorth gyda'r Gymraeg yn cael eu trin gyda'r un pwysigrwydd â gofynion hanfodol eraill.		<p>Bydd hyn er mwyn sicrhau bod y galluoedd hyn yn cael eu corffori yn y prosiect o'r cychwyn cyntaf ac yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw ofynion eraill.</p> <p>Bydd y gweithgareddau penodol yn amrywio gan ddibynnu ar natur y prosiect (h.y. asesu system sy'n bodoli eisoes o'i gymharu â datblygu system newydd), ond bydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli'r Prosiect • Rheoli Gofynion • Dylunio a Datblygu • Profi • Dogfennaeth • Derbyn 	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiaid ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiaid ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenori aeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			Ar gyfer asesu datrysiad parod, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio'r gofynion hyn mewn manyleb. Pan fydd y prosiect yn cynnwys dadansoddi a datblygu datrysiad newydd, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r gofyniad hwn.	
1.2	Rhaid i'r ddwy iaith fod ar gael cyn i'r rhaglen gael ei defnyddio'n weithredol.		Mae hyn yn berthnasol ar gyfer defnydd am y tro cyntaf ac i unrhyw uwchraddio sydd wedi digwydd. Mae'n atal sefyllfa pan fyddai'r rhaglen ar gael yn y naill gyda'r llall i ddilyn neu diffyg o ran darparu'r ddwy iaith yn gyfartal.	
1.3	Dylai'r ansawdd ieithyddol fod ar yr un lefel ar gyfer y ddwy iaith. Dylid defnyddio adnoddau safonol a dim ond cyfieithydd achrededig ddylai fod yn darparu cyfieithiadau.		<p>Lle darperir cyfieithiadau Cymraeg, rhaid i'r cyfieithydd fod yn aelod o gorff cyfieithu cydnabyddedig.</p> <p>Mae'n rhaid dilysu terminoleg ac adnoddau iaith eraill yn erbyn adnodd safonol e.e. cronfeydd data o dermau a/neu enwau lleoedd safonol) lle bo modd gwneud hynny.</p> <p>Dylai'r derminoleg fod yn gyson ar draws y rhaglen gyfan, gan gynnwys unrhyw gynnwys cymorth defnyddiwr cysylltiedig.</p> <p>Dylid lunio neu ddilyn canllaw arddull sefydledig ar gyfer lleoleiddio meddalwedd i'r Gymraeg. E.e. Canllaw Arddull Porth Iaith Microsoft ar gyfer y Gymraeg a/neu Arddulliadur Lywodraeth Cymru (Canllaw Arddull) ar wefan Byd Term Cymru.</p>	
1.4	Rhaid i fyrfoddau ac acronymau, e.e. mewn calendrau, fod yn briodol ar gyfer pob iaith.		<p>Yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen rhoi ystyriaeth i strwythur gramadegol y Gymraeg (e.e. gyda'r trefnolion); • Rhaid gallu delio'n llawn â deugraffau (dau nod sy'n creu un llythyren fel Ch, Ll, Ng ac ati), h.y. rhaid defnyddio'r ddau nod mewn byrfoddau. 	
1.5	Mae angen arddangos dyddiadau'n gywir yn y ddwy iaith.		Nodyn: mae sensitifrydd <i>locale</i> yn gallu achosi fformatau gwahanol.	

Id	Gofynion	Blaenori aeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
1.6	Mae'n rhaid i'r cyfnod profi sicrhau cydraddoldeb rhwng ieithoedd a chynnwys gwiriadau ansawdd iaith. Dylai hyn gael ei wneud gan siaradwyr cymwys o bob iaith.		Rhaid i'r profion (a'r achosion profi a derbyn ffurfiol pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio) ystyried ansawdd yr iaith sy'n cael ei defnyddio, ond rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y ddwy iaith yn gweithio'n gyfartal a bod y swyddogaethau a'r profiad defnyddiwr yr un fath ac o'r un ansawdd yn y naill iaith a'r llall. Dylai profion defnyddwyr hefyd gynnwys pob math o ddefnyddwyr, sy'n cynnwys, wrth reswm, siaradwyr Cymraeg.	
1.7	Mae angen ystyried y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddylunio a chyflwyno.		Dylai unrhyw frandio, graffeg a delweddau naill ai fod yn niwtral o ran iaith, neu ni ddylent drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pan fydd iaith wedi'i ymgorffori mewn gwrthrychau rhyngwyneb defnyddiwr (e.e. delweddau), dylai'r rhain naill ai fod yn niwtral o ran iaith, yn y ddwy iaith neu dylid cael gwrthrych gwahanol (ond cyfatebol) ar gyfer pob iaith.	
1.8	Dylid ffactora costau unrhyw ddarpariaeth iaith i gyllidebau a'r amserlenni.		Dylid ystyried cost cyfieithu, trwyddedi a dulliau eraill i ddarparu'r adnoddau, ond dylid hefyd ystyried integreiddio, profi a gweithgareddau prosiect eraill.	
1.9	Mae angen i gynnwys cymorth i ddefnyddwyr (h.y. help) fod ar gael yn y ddwy iaith. Dylai'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.		Mae'r gofyniad hwn yn ymwneud yn benodol â chyfieithu a darparu'r holl gynnwys help a chyfarwyddyd ym mhob iaith. Pan fydd is-system cymorth i ddefnyddwyr yn cynnwys swyddogaethau, fel llywio, chwilio, adborth ac ati, bydd angen i'r swyddogaethau hyn fod yn gwbl ddwyieithog yn yr un ffordd ag agweddau eraill ar y rhaglen. Ar gyfer yr holl gynnwys rhyngwyneb defnyddiwr arall, mae angen i'r cynnwys cymorth i ddefnyddwyr gael ei gynnal yn y ddwy iaith yn gyfartal pan gaiff ei ddiweddarau. Mae angen unrhyw adnoddau sydd wedi'u hymgorffori yn y cynnwys hwn, megis sgrin luniau, fod yn yr iaith gywir.	
1.10	Mae angen nodi unrhyw raglenni cysylltiedig (e.e.		Rhaid i'r holl raglenni a fydd yn rhan o'r ateb a fwriedir gydymffurfio â'r canllawiau hyn.	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenori aeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
	<p>gosodwyr, offer cefnogi ac ati) sydd â rhyngwyneb defnyddiwr a mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn berthnasol iddynt hefyd.</p>			

2. Darparu a chynnal iaith

Gofynion sy'n ymwneud â sut caiff iaith (h.y. cyfieithiadau) ei darparu a'i chynnal ar gyfer y rhaglen.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
2.1	Pan fo defnyddiwr yn gallu addasu'r iaith yn y rhyngwyneb defnyddiwr, rhaid i'r dewis hwn fod ar gael yn y ddwy iaith yn yr un modd.		Os bydd defnyddiwr rhaglen yn gallu cynnal iaith rhyngwyneb y defnyddiwr (e.e. addasu labeli, penynnau colofnau, cynnwys, cyfarwyddyd ac ati), yna mae angen gallu gwneud hyn yn y ddwy iaith yn gyfartal.	
2.2	Os bydd gwaith cyfieithu rheolaidd/arferol yn rhan o weithrediad y rhaglen, byddai swyddogaethau i gefnogi'r broses hon yn ddymunol iawn er mwyn osgoi sefyllfa o oedi os yn derbyn cyfieithiadau'n hwyr. Gallu hyn amharu ar derfyn amser.		<p>Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw angen gweithredol parhaus i gynnal adnoddau iaith rhyngwyneb y defnyddiwr.</p> <p>Mae modd lliniaru'r ymdrech sydd ynghlwm wrth wneud hyn drwy'r gallu i roi gwybod i gyfieithydd am newidiadau, llif gwaith cyfieithu awtomataidd, darparu rhyngwyneb defnyddiwr sy'n benodol at ddibenion cynnal iaith a swyddogaethau tebyg eraill.</p>	
2.3	Dylid cael rhyngwyneb/proses sydd wedi cael ei diffinio'n dda, mae modd ei hailadrodd ac, yn ddelfrydol, sy'n awtomataidd er mwyn gallu canfod, cofnodi ac echdynnu adnoddau iaith naturiol i'w cyfieithu (pan fo'n berthnasol) ac wedyn eu mewngludo'n ôl.		<p>Dylid ystyried ymdrech (ac felly cost) echdynnu asedau iaith o raglen i'w cyfieithu a/neu eu lleoleiddio, rheoli'r broses gyfieithu/lleoleiddio a mewngludo'r adnoddau sydd wedi cael eu cyfieithu/lleoleiddio yn ôl i'r fformat sydd ei angen ar y rhaglen.</p> <p>Pan fo'n berthnasol, bydd prosesau mae modd eu hailadrodd ac sy'n awtomataidd yn lleihau cost ac yn gwella'r gwaith cynnal a chadw ac yn helpu i sicrhau cysondeb ac ansawdd uwch.</p> <p>Ar gyfer cynnwys testun bydd hyn yn cynnwys integreiddiad uniongyrchol ag offer cyfieithu (llif gwaith cyfieithu, cofion cyfieithu ac ati) neu rhyngwyneb data sy'n hwyluso defnyddio offer o'r fath.</p>	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			Nid yw hwn yn ofyniad 'Rhaid'. Ond, dylid ystyried unrhyw gost o ran integreiddio a diweddarau cyfieithiadau. Dylid nodi hefyd fod cyfieithu yn sgil technegol a dim ond cyfieithwyr dynol cymwys a ddylai ymgymryd â'r gwaith.	

3. Set nodau, amgodio a locale

Mae gwahaniaethau rhwng yr wyddor Gymraeg a'r wyddor Saesneg: y llythrennau, deugraffau (dau nod sy'n creu un llythyren), marciau diacritig (acenion/addasyddion) a threfn. Mae'r gofynion hyn yn sicrhau bod modd delio'n gyfartal â'r ddwy wyddor a'r amgodio nodau.

Id	Gofynion	Blaenor iaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
3.1	Rhaid gallu delio â set nodau lawn y Gymraeg, gan gynnwys pob marc diacritig, ym mhob agwedd ar y rhyngwyneb defnyddiwr, prosesu a storio data.		<p>Mae hyn yn ymwneud â phob allbwn testun o'r rhaglen mae modd i'r defnyddiwr ei weld. Mae hyn yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr graffigol, adroddiadau, negeseuon e-bost ac unrhyw fath arall o destun.</p> <p>Argymhellir Unicode (UTF-8 neu UTF-16), ond pa amgodio bynnag a ddefnyddir, mae'n rhaid iddo allu delio â phob nod Cymraeg sydd â marc diacritig, h.y. acen ddyrchafedig, acen ddisgynedig, acen grom a didolnod ar y 7 llafariad (a, e, i, o, u, w, y) mewn priflythrennau a llythrennau bach: 56 nod at ei gilydd.</p> <p>Mae'r llythrennau <i>ŵ</i> ac <i>ŷ</i> yn brawf da gan fod y rhain yn absennol mewn codau penodol.</p>	
3.2	Dylid diffinio system amgodio'r set nodau a'r iaith a ddefnyddir yn glir pryd bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys y rhyngwyneb defnyddiwr, dogfennau, rhyngwynebau data ac unrhyw le arall lle caiff data testun ei ddefnyddio, ei storio neu ei drosglwyddo.		<p>Ar gyfer fformatau arddangos, storio a diffinio testun, fel rheol mae'n bosibl cynnwys disgrifydd penodol o'r amgodio a ddefnyddir e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meta-ddata mewn HTML ac XML ar gyfer amgodio ac iaith (UTF-8 & xml:lang) a chyfwerth ar gyfer technolegau gwahanol; • Ffurfweddiad llwyfan gweithredu ar gyfer Unicode/UTF-8; • Defnyddio amgodio Unicode/UTF-8 ar gyfer pob fformat ffeil; • Mewn rhyngwynebau data i raglenni a thrydydd partion eraill. 	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiaid ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiaid ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenor iaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd delio â'r set nodau Cymraeg lawn er gwaethaf unrhyw osodiad diofyn ar y rhaglen neu lwyfan gweithredu'r defnyddiwr.	
3.3	Dylai unrhyw ddefnydd o <i>locale</i> weithio ar gyfer y ddwy iaith yn gyfartal.		Os caiff <i>locales</i> eu defnyddio, rhaid iddynt gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg, a chydymffurfio â safonau (ISO-639, ISO-3166, LCID, ac ati).	
3.4	Ni ddylai marciau diacritig effeithio ar y drefn ddiidoli.		Ni ddylai marciau diacritig (h.y. to bach, acen ddyrchafedig, acen ddisgynedig a didolnod) effeithio ar y drefn ddiidoli. E.e. mae e, ê, é, è ac ë yn gwbl gyfwerth wrth ddiidoli.	
3.5	Rhaid i restri sydd yn nhrefn yr wyddor gael eu dangos yn y drefn gywir ar gyfer yr iaith.		Ni fydd cyfieithiad syml o ryngwyneb defnyddiwr Saesneg i'r Gymraeg yn addas ar gyfer rhestr wedi'i didoli yn nhrefn yr wyddor. Bydd angen ail-drefnu'r testun sydd wedi'i gyfieithu. E.e., bydd rhestr o siroedd Cymru yn Saesneg yn gosod 'Anglesey' ar frig y rhestr, ond bydd y cyfieithiad Cymraeg, 'Ynys Môn', yn ymddangos ar waelod y rhestr.	
3.6	Trefn ddiidoli		Pan gyflwynir rhestr yn nhrefn yr wyddor i ddefnyddiwr mae angen iddi ddefnyddio trefn sy'n gywir ar gyfer yr iaith dan sylw. Gan fod rhestrau yn aml yn defnyddio cymysgedd o ieithoedd (e.e. enwau priod ac ati), y dull a argymhellir ar gyfer trefnu'n ddwyieithog ydy defnyddio wyddor 'set arbennig' (h.y. cyfuno'r ddwy wyddor) fel sy'n cael ei amlinellu isod yn y testun trwm : a, b, c, ch, d, dd, e, f, ff, g, ng, h, i, j, k, l, ll, m, n, o, p, ph, q, r, rh, s, t, th, u, v, w, x, y, z	

4. Dewis iaith

Yn ogystal ag angen gallu cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg mae angen i raglenni dwyieithog ganiatáu i ddefnyddwyr gyfnewid rhwng ieithoedd drwy'r amser.

Mae hefyd angen iddynt sicrhau bod defnyddwyr yn gallu mynegi pa iaith sydd well ganddynt ei defnyddio a thracio hynny. Mae'n hanfodol bod modd gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n rhagdybio nac yn gorfodi un iaith ar draul y llall.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
4.1	<p>Wrth ddefnyddio'r rhaglen am y tro <i>cyntaf</i> ac os nad yw dewis iaith y defnyddiwr wedi cael ei ddatgan yn benodol gan y defnyddiwr, bydd y rhaglen yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio dewisydd 'sblash' dwyieithog, a/neu; Cadw'r iaith o'r cynnwys sy'n cyfeirio, a/neu; Defnyddio'r dull a ddefnyddiwyd i gael gafael ar y rhaglen i bennu'r iaith; Defnyddio'r gosodiad <i>locale</i> o'r amgylchedd gweithredu. 		<p>Pan fydd defnyddiwr yn defnyddio'r rhaglen am y tro cyntaf, h.y. cyn i'r defnyddiwr ddewis iaith yn benodol, mae angen penderfynu ar y dewis iaith.</p> <p>Mae'n hanfodol y gwneir pob ymdrech i ganfod bwriad y defnyddiwr (penderfyniad dealedig) neu y gofynnir i'r defnyddiwr ddewis iaith ar y cyswllt cyntaf (penderfyniad penodol, e.e. dewisydd 'sblash').</p> <p>Yn aml mae modd gwneud hyn drwy'r dull a ddefnyddiwyd i ofyn am y rhaglen, e.e. <i>dolen</i>, <i>enw parth</i>, <i>llwybr byr</i>, <i>locale</i> amgylchedd gweithredu, proffil defnyddiwr neu ddewis dewislen o gyd-destun lle mae'r dewis iaith eisoes yn hysbys.</p> <p>Y brif egwyddor yma yw bod y ddwy iaith yn gyfartal (h.y. sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafrinol na'r Saesneg) ac na ddylai'r rhyngwyneb defnyddiwr gael dewis un iaith yn ddiofyn mewn unrhyw sefyllfa.</p> <p>Wrth weithredu, fel rheol bydd y gofyniad hwn yn cael ei fireinio i fod yn benodol i natur y rhaglen (h.y. gwe, llais, symudol ac ati) a'r amgylchedd gweithredu a fwriadwyd.</p>	
4.2	Os bydd defnyddiwr yn dewis iaith yn benodol bydd hynny'n drech nag unrhyw		Er y bydd rhaglen yn pennu dewis iaith defnyddiwr cyn i'r defnyddiwr ddewis iaith yn benodol, ar ôl i ddefnyddiwr ddewis iaith, mae'n rhaid i hyn fod yn drech nag unrhyw	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrsiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrsiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
	ddewis dealedig neu dybiedig.		benderfyniad dealedig/tybiedig. E.e. gosodiad y system weithredu	
4.3	Bydd dewisydd iaith ar gael ar unwaith, yn gyfartal ac yn gyson drwy'r rhaglen (a dylai fod yr un mor amlwg ar gyfer y ddwy iaith).		<p>Dylai defnyddwyr allu newid iaith unrhyw bryd/cam maent yn defnyddio rhaglen.</p> <p>Mae 'ar unwaith' yn hanfodol yma. Rhaid i'r dewisydd iaith fod ar gael heb amharu ar ymgysylltiad defnyddiwr gyda'r rhaglen, h.y. dylid gallu ei weld bob amser mewn rhyngwyneb graffigol, dylai fod yn orchymyn sydd ar gael bob amser mewn rhyngwyneb llais ac ati.</p> <p>Rhaid i'r dewisydd fod ar gael yn y ddwy iaith, h.y. yr un lleoliad ac amlygrwydd (maint, ffont a lliw) dim ots pa iaith sydd wedi cael ei dewis.</p> <p>Eithriad: Dylid cofnodi'n benodol yn y fanyleb am unrhyw eithriadau h.y. pan mae defnyddiwr yn defnyddio sgrin bychain, mae modd oherwydd diffyg lle/nifer o lythrennau dangos y dewis iaith fel 'CY' neu 'EN'.</p>	
4.4	Bydd y dewisydd iaith yn amlwg ac ar gael ar unrhyw adeg/amser.		Ar gyfer rhyngwyneb defnyddiwr graffigol, bydd hyn yn ardal dde uchaf y rhyngwyneb. Ar gyfer mathau eraill o ryngwyneb bydd angen iddo fod yr un mor amlwg, cyson a hawdd ei ddefnyddio.	
4.5	Bydd newid iaith yn cynnal cyd-destun y defnyddiwr.		<p>Pan fydd defnyddiwr yn newid iaith, dylai'r newid gadw'r defnyddiwr yn yr un lle yn y rhaglen a gyda'r un data a chyd-destun sesiwn.</p> <p>Os newidir iaith mewn rhaglen gwe dylid ail-lwytho'r un dudalen, dylid cadw'r un cyd-destun swyddogaethol.</p> <p>Os newidir iaith mewn rhaglen gwe dylid ail-lwytho'r un dudalen.</p>	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaeno riaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			<p>Mae posib fod ychydig o'r data mewn ffurflen sydd wedi cael ei chwblhau'n rhannol yn cael eu colli ond fel arall dylid cadw'r un cyd-destun.</p> <p>Os bydd hi'n anochel y collir unrhyw gyd-destun neu gyflwr y tu hwnt i ffurflen sydd wedi cael ei llenwi'n rhannol, dylid rhoi gwybod i'r defnyddiwr am yr effaith a dylai gael dewis i beidio â newid iaith.</p> <p>Mae'r un peth yn wir i ddefnyddiwr sydd yn defnyddio rhyngwyneb llais hygyrch i gwblhau ffurflen.</p>	
4.6	Bydd dewis iaith yn parhau drwy gydol sesiwn y defnyddiwr.		<p>Pan fydd dewis iaith wedi cael ei wneud, yn ddealliedig neu'n benodol, bydd yr iaith honno'n cael ei defnyddio ar gyfer gweddiill sesiwn y defnyddiwr nes y bydd defnyddiwr yn newid iaith yn benodol.</p> <p>Bydd y defnyddiwr yn gallu llywio a defnyddio'r rhaglen yn gyfan gwbl ac yn llwyr yn eu dewis iaith.</p>	
4.7	Dylai dewis iaith gael ei storio a'i ddefnyddio'n ddiofyn ar gyfer sesiynau'r defnyddiwr yn y dyfodol.		<p>Pan fydd dewis iaith wedi cael ei wneud, yn ddealliedig neu'n benodol, dylid storio'r iaith honno mewn storfa barhaus (e.e. ar ffurf cwci, gosodiad dyfais, llwybrau eraill ac ati) er mwyn gallu ei defnyddio fel iaith ddiofyn/gychwynnol sesiynau yn y dyfodol.</p> <p>Dylid defnyddio'r dewis iaith sydd wedi cael ei storio cyn gynted ag y bydd y defnyddiwr yn defnyddio'r rhaglen yn y dyfodol fel dewis penodol. Felly ar gyfer y gofyniad hwn nid yw'n dderbyniol defnyddio proffil defnyddiwr sydd ond ar gael ar ôl i'r defnyddiwr 'fewngofnodi' (neu ddilysu neu nodi pwy ydyn nhw).</p>	
4.8	Y botwm dewis iaith fydd y gair ar gyfer yr iaith yn yr		Fel ail ddewis, a dim ond lle nad oes digon o le, gellir defnyddio talfyriad safonol ar gyfer y gair llawn. H.y. EN neu	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llwv.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaeno riaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
	<p><i>iaith honno</i> (h.y. “English” neu “Cymraeg”). Gellir defnyddio logo Cymraeg/iaith Gwaith 🗨️ ochr yn ochr â'r gair ‘Cymraeg’ i gynrychioli mecanwaith i newid cynnwys i'r Gymraeg (ond nid o'r Gymraeg i'r Saesneg).</p>		<p>ENG ar gyfer y Saesneg a CY neu CYM ar gyfer y Gymraeg. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei ddefnyddio, dylid sicrhau bod enw llawn yr iaith ar gael ar gyfer darllenwyr sgrin a meddalwedd hygyrchedd arall.</p> <p>Ni ddylid defnyddio baneri cenedlaethol neu arwyddion eraill i ddynodi iaith.</p>	
4.9	<p>Bydd unrhyw restr ieithoedd yn cynnwys yr iaith arall/ieithoedd eraill, h.y. ni fydd cynnwys yr iaith sydd eisoes wedi cael ei dewis.</p>		<p>Wrth ddefnyddio'r rhyngwyneb defnyddiwr Saesneg, bydd y botwm dewis iaith yn nodi ‘Cymraeg’. Wrth ddefnyddio'r rhyngwyneb defnyddiwr Cymraeg, bydd y botwm dewis iaith yn nodi ‘English’.</p> <p>Mewn cyd-destun amlieithog a phan fydd rhestr o ieithoedd eraill, bydd y dewis Cymraeg (pan na fydd rhywun yn y rhyngwyneb defnyddiwr Cymraeg) yr un mor amlwg ag English (pan na fydd rhywun yn y rhyngwyneb defnyddiwr Saesneg).</p>	
4.10	<p>Rhaid i'r dulliau o gael mynediad at y rhaglen a/neu wefan fod yn ddwyieithog ac yn gyson â'r iaith sydd wedi cael ei dewis.</p>		<p>Rhaid i'r ffordd o gael mynediad at y rhaglen fod yr un fath ar gyfer y ddwy iaith, h.y. naill ai dull iaith-niwtral neu ddull sy'n gyfartal ym mhob iaith.</p> <p>Ar gyfer rhaglenni gwe, enw'r parth ydy hyn fel rheol. Dylai enw'r parth fod yn iaith-niwtral (e.e. enw brand) neu dylid cael enw parth ar gyfer pob iaith. Os oes enw parth ar gyfer pob iaith mae modd defnyddio hynny fel ffordd o bennu'r iaith mewn ffordd ddealedig os na fydd y defnyddiwr wedi gwneud dewis penodol.</p> <p>Pan fydd y defnyddiwr yn dewis iaith arall, dylid newid yr enw parth sy'n cael ei ddefnyddio (neu ddull perthnasol arall</p>	

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			ar gyfer rhaglenni nad ydyn nhw'n rhai gwe) i'r iaith sy'n cael ei dewis.	

5. Cywerthedd, cyd-destun a darpariaeth

Mae trin y ddwy iaith yn gyfartal yn hanfodol. Mae'r gofynion hyn yn sicrhau waeth pa iaith bynnag sy'n cael ei dewis gan y defnyddiwr, nad oes gwahaniaeth mewn ansawdd, darpariaeth, adnoddau na galluoedd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
5.1	Bydd holl iaith naturiol rhyngwyneb defnyddiwr y rhaglen yn gyfan gwbl yn yr iaith sydd wedi cael ei dewis		<p>Mae hyn yn rhoi sylw i ddarpariaeth. Rhaid i holl eitemau'r rhyngwyneb defnyddiwr fod yn gyfan gwbl yn yr iaith sydd wedi cael ei dewis oni bai fod gofyniad hanfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r holl destun fod yn yr iaith sydd wedi cael ei ddewis ac ni ddylid gweld unrhyw destun yn yr iaith arall, h.y. dim testun 'iaith gymysg'.</p> <p>Eithriad i hyn yw pan fydd 'gofyniad hanfodol' yn golygu'n benodol bod angen testun iaith gymysg, e.e. mewn amgylchedd dysgu iaith, swyddogaethau cyfieithu, rhaglen lle mae testun cymysg yn ofyniad penodol ac a fwriadwyd ac ati.</p> <p>Pan fydd dewis iaith yn newid yr iaith, dylai'r holl eitemau newid ar unwaith i'r iaith sy'n cael ei dewis.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys testun, llais, delweddau ac unrhyw asedau rhyngwyneb defnyddiwr eraill sydd â chydran iaith naturiol, boed hynny'n rhan wedi'i phlannu yn y rhaglen neu'n gysylltiedig/integredig.</p> <p>Mae'n cynnwys pob agwedd o'r rhyngwyneb defnyddiwr, gan gynnwys y rheini sy'n amodol neu'r rheini nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n aml, fel negeseuon gwall a hysbysiadau.</p>	
5.2	Rhaid i unrhyw alluoedd cymorth iaith integredig fod		Mae hyn yn berthnasol, er enghraifft, i wirwyr sillafu, thesawrysau, darllenwyr sgrin, adnabod llais, llais ac	

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
	ag adnoddau cyfatebol ym mhob iaith.		unrhyw adnoddau, offer a chymorth iaith naturiol arall. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.	
5.3	Bydd strwythur, ansawdd a swyddogaethau'r rhyngwynebau defnyddiwr union yr un fath ym mhob iaith gyda chwmpas ac ansawdd cynnwys cyfatebol.		<p>Bydd defnyddwyr yn gallu llywio a defnyddio holl swyddogaethau'r rhaglen yn eu dewis iaith.</p> <p>Ni ddylid colli ansawdd, cynnwys, gwybodaeth na gallu ar sail yr iaith sydd wedi cael ei dewis.</p> <p>E.e. ni ddylid guddio negeseuon/testun gan y cyhoedd mewn fforwm sydd mewn iaith gwahanol i'r rhyngwyneb.</p>	
5.4	Rhaid i'r trefniant rhyngwyneb defnyddiwr ganiatáu ar gyfer amrywiadau hyd yr iaith a ddefnyddir.		Rhaid i ansawdd y cyflwyniad fod yr un peth yn y naill iaith. Ni ddylid cwtogi na cholli cynnwys.	
5.5	Dylai'r cymorth o ran hygyrchedd a chynnwys arall i'w ddefnyddio gan drydydd partion fod yr un fath yn y ddwy iaith.		<p>Mae hyn wedi cael ei gyfeirio i raddau helaeth at ddarlennwyr sgrin ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg. Dylai'r cymorth fod yn gyfartal ar gyfer y ddwy iaith, ond dylid hefyd ystyried y cynnwys dwyieithog.</p> <p>Mae hyn yn ymestyn i unrhyw ystyriaeth ar gyfer mynediad i'r rhaglen a'i chynnwys gan adnoddau allanol ac mae'n cynnwys deunyddiau at ddibenion gwe semanteg, chwilio'n well, fformatau dyfais-benodol (e.e. gwefannau ymatebol) ac ati.</p>	
5.6	Rhaid i'r dolenni a'r cyfeiriadau at adnoddau allanol arwain at yr adnodd yn yr un iaith ag a ddewisir gan y defnyddiwr ar y bryd.		<p>Pan fydd yn adnodd allanol ar gael yn yr iaith rhyngwyneb defnyddiwr dan sylw ar hyn o bryd, rhaid bod dolen/cyfeiriad at y fersiwn honno yn yr iaith bresennol.</p> <p>Pan fo'r adnodd yn cael ei ddarparu o fewn cwmpas y rhaglen, neu'r sefydliad sy'n rheoli'r rhaglen, mae'n rhaid i'r adnodd fod ar gael yn y ddwy iaith.</p>	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			Mae enghreifftiau yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) wefannau, cyfryngau cymdeithasol, dogfennau ac asedau eraill, ffeiliau cymorth, ac ati.	

6. Rheoli data iaith

Mae llawer mwy i raglenni na'r rhyngwyneb defnyddiwr a'r cynnwys. Fel rheol mae rhaglenni'n derbyn, yn prosesu ac yn cyhoeddi data. Pan fydd y data hwn yn cynnwys deunyddiau iaith-benodol, dylai'r rhaglen allu rheoli hyn yn ddwyieithog.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
6.1	Pan fydd cyfleuster ar gael i ddefnyddiwr fewnbynnu data yn y ddwy iaith, rhaid i drefn arddangos (h.y. blaenoriaeth) a pha feysydd y mae'n rhaid eu llenwi fod yn gyson â'r iaith a ddewiswyd.		<p>Wrth alluogi defnyddiwr i fewnbynnu gwybodaeth yn y ddwy iaith efallai y bydd dwy set o feysydd cofnodi data'n cael eu defnyddio, un ar gyfer pob iaith.</p> <p>Mae'r gofyniad hwn yn rhoi sylw i'r rheolau blaenoriaeth (trefn) a dilysu a fydd yn berthnasol pan ddefnyddir amrywiadau dwyieithog maes data.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r meysydd y mae'n rhaid eu llenwi ym mhob iaith fod yr un fath, neu'n seiliedig ar yr iaith rhyngwyneb defnyddiwr sydd wedi cael ei dewis; • Rhaid i'r dilysu data fod yr un fath, neu'n seiliedig ar yr iaith rhyngwyneb defnyddiwr sydd wedi cael ei dewis; • Bydd unrhyw flaenoriaeth a roddir i un set (iaith) o feysydd yn adlewyrchu'r iaith rhyngwyneb defnyddiwr sydd wedi cael ei dewis. <p>Nodyn: mae osgoi cofnodi data heb ei strwythuro'n lleihau'r gofyniad hwn yn sylweddol.</p>	
6.2	Pan fydd data sy'n cynnwys data iaith-sensitif yn cael ei roi mewn/gysylltu â rhaglen drwy ddull sy'n caniatáu pennu'r iaith, rhaid gallu adnabod iaith y data hwnnw.		<p>Mae hyn yn golygu wrth dderbyn cofnod data o unrhyw rhyngwyneb (data neu ddefnyddiwr) a phan fydd y rhyngwyneb hwnnw'n caniatáu adnabod iaith y data (maes sy'n benodol i'r iaith, metaddata mewn rhyngwyneb data ac ati), yna dylai'r rhaglen dagio'r data hwnnw â'r cod iaith perthnasol.</p> <p>Mae modd gwneud hyn drwy fetaddata, dangosyddion data penodol eraill, neu gallai fod yn fater o adnabod iaith yn</p>	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrysiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrysiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
			<p>ddealedig fel storio'r data mewn lleoliad (lleoliad system ffeil, maes cronfa ddata ac ati) sy'n benodol i'r iaith.</p> <p>Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob math o ddata, gan gynnwys gwrthrychau data, ffeiliau ac ati.</p>	
6.3	Dylai swyddogaethau chwilio weithio'r un fath yn y naill iaith a'r llall.		<p>Pan fydd rhaglen yn cynnwys cyfleuster chwilio dylai weithio yn y naill iaith a'r llall, gan ddychwelyd pob canlyniad perthnasol ar gyfer y termau a roddwyd, h.y. dylai chwilio ar draws cynnwys Cymraeg a Saesneg.</p> <p>Pan fo cynnwys ar goll ar gyfer y rhyngwyneb defnyddiwr a ddewiswyd ond ar gael yn yr iaith arall, dylid arddangos y cynnwys - dylid osgoi diffyg cynnwys ar bob cyfrif, hyd yn oed os nad yw ar gael yn yr iaith a ddewiswyd ar bob cyfrif er mwyn osgoi diffyg cyfatebiaeth o ran swyddogaethau.</p>	
6.4	Dylai Metaddata a nodweddion eraill strwythur data fod ar gael yn y ddwy iaith, hyd yn oed os bydd rhywfaint o gynnwys ar gyfer un iaith ar goll.		H.y. dylai'r metaddata a nodweddion data strwythuredig eraill fod yn gysylltiedig yn y ddwy iaith fel y gellir eu gweld drwy chwilio hyd yn oed os nad oes rhai nodweddion data (ee testun rhydd, ac ati) ar gael.	
6.5	Dim ond mewn achosion hanfodol dylai defnyddwyr gael mewnbynnu data iaith naturiol mewn ffordd heb ei strwythuro.		<p>Pan fydd defnyddiwr yn mewnbynnu data iaith naturiol mewn ffordd heb ei strwythuro (ee mewn maes testun rhydd), gall fod yn anodd rheoli hyn mewn ffordd ddwyieithog ac ar draws ieithoedd.</p> <p>Mae'r broses o reoli, defnyddio ac (o bosibl) cyhoeddi/arddangos data yn haws o lawer os caiff y data hwnnw ei gasglu mewn ffordd sydd wedi'i strwythuro/unffurf, e.e. rhestr a/neu ddewis dewislen, dewisiadau, categorïau sy'n cael eu dewis gan y defnyddiwr, atebion ie/na ac ati.</p>	

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
6.6	Pan fydd data sy'n cynnwys data iaith-sensitif yn cael ei roi mewn/gysylltu â rhaglen ar wahân ym mhob iaith, dylai'r rhaglen gysylltu'r ddwy eitem.		<p>Dylid ystyried eitemau data fel dau ddehongliad o'r un eitem data cysyniadol, wedi'u mynegi drwy 'amrywiad' ym mhob un o'r ieithoedd.</p> <p>Mae'r cysylltiad yn gallu bod yn benodol, drwy ddefnyddio metaddata neu'n ddealedig, ee lleoliad storio.</p> <p>Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob math o ddata, gan gynnwys gwrthrychau data, ffeiliau ac ati.</p>	
6.7	Pan fydd trydydd parti'n darparu data, naill ai drwy'r rhyngwyneb defnyddiwr neu drwy ryngwyneb data, rhaid iddi fod yn bosibl mynnu ei bod yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.		<p>Gall y gofyniad hwn amrywio yn ôl natur y rhaglen a natur dy ofynion ac felly mae modd ei addasu.</p> <p>Pan fydd data'n cael ei ddarparu gan drydydd parti sydd â dyletswydd statudol i weithredu'n ddwyieithog, mae'n briodol mynnu bod y data hwnnw'n ddwyieithog a'i drin yn unol â hynny.</p> <p>Pan fydd data'n cael ei ddarparu gan sefydliad trydydd parti heb ddyletswydd statudol i weithredu'n ddwyieithog, mae'n bosibl y bydd y data hwnnw'n cael ei ddarparu'n ddwyieithog ac mae'n bosibl y bydd yn y naill iaith neu'r llall.</p> <p>Bydd y rheolau dilysu a'r ffordd y caiff y data ei drin yn amrywio felly yn ôl yr amgylchiadau, ond mae'n hanfodol sicrhau y bydd y rhaglen benodol yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol.</p>	

7. Allbynnau ac ystyriaethau iaith

Yn aml, bydd rhaglenni'n cynhyrchu allbynnau (negeseuon e-bost, adroddiadau, dogfennau, llythyrau postgyfuno ac ati) a fydd yn para'n hirach na'r cyfnod pan fydd defnyddiwr yn rhyngweithio â'r rhaglen. Hyd yn oed pan fod defnyddiwr yn dewis un iaith i'w rhyngwyneb, mae angen i'r rhaglen allu creu dogfennau mewn mwy na un iaith e.e. er i ddefnyddiwr ddewis rhyngwyneb Cymraeg i'r rhaglen Word, mi all greu dogfennau yn Gymraeg a Saesneg.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
7.1	Wrth gofnodi gwybodaeth am endid (e.e. unigolyn) sydd â dewis iaith, rhaid gallu cofnodi'r wybodaeth honno.		Dylai'r cofnod hwn gofnodi'r dewis ar gyfer pob math o gyfathrebu, ee llais, e-bost, SMS, llythyrau ac ati.	
7.2	Mae angen i allbynnau safonol rhaglen, h.y. adroddiadau, fod ar gael yn ddwyieithog.		<p>Mae hyn yn rhoi sylw i'r iaith safonol yn yr adroddiad, h.y. teitl, penawdau colofnau, dangosyddion tudalen ac ati a'r data ei hun hefyd.</p> <p>Rhaid i destun rhaglen safonol fod ar gael yn ddwyieithog. Pan fydd data ond ar gael mewn un iaith, h.y. data heb ei strwythuro wedi cael ei fewnbynnu mewn un iaith gan ddefnyddiwr, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r data hwnnw.</p>	
7.3	Mae angen i allbynnau a ddarperir ar gyfer endid (e.e. unigolyn neu sefydliad) gydnabod a chael eu teilwra i'r dewis iaith sydd wedi cael ei chofnodi ar gyfer yr endid hwnnw.		<p>Bydd y dull gweithredu penodol a ddefnyddir yn dibynnu ar natur yr allbwn.</p> <p>Rhaid i'r rhaglen fod yn ddigon hyblyg i gefnogi'r holl ddulliau gweithredu angenrheidiol a gallu delio ag allbynnau dwyieithog (gyda dewis iaith yn fwyaf amlwg).</p> <p>Pan fydd meysydd data wedi'u mewnosod yn yr allbwn (h.y. swyddogaeth debyg i bostgyfuno), dylid defnyddio'r iaith briodol ar gyfer pob maes data.</p>	
7.4	Rhaid i negeseuon e-bost a fydd yn cael eu cynhyrchu		Dyma'r galluoedd penodol y mae'n rhaid eu darparu i ddiwallu'r gofyniad hwn:	

Os nad yw'r canllawiau hyn yn ddigon clir, neu os nad wyt ti'n credu gall y system gydymffurfio, anfon nodyn at heloblod@llw.cymru i gael cyngor ymarferol. Mae datrsiad ar gael bron bob amser, ac os nad oes datrsiad ar gael yn barod, gallwn weithio gyda'r darparwyr i ganfod ffordd.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
	gan y rhaglen fod yn ddwyieithog.		<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r rhaglen allu delio naill ai â negeseuon e-bost uniaith ym mhob iaith neu negeseuon e-bost dwyieithog neu'r naill a'r llall; • Bydd llinellau pwnc a chynnwys ar gyfer negeseuon e-bost dwyieithog yn dangos blaenoriaeth/trefn iaith ar sail y dewis iaith; • Bydd cyfeiriadau ateb (cyfeiriad a pharth) yn seiliedig ar y dewis iaith; • Dylai'r addasyddion llinell pwnc (e.e. RE:/ATB:, YML:/FW:, ac ati) fod yn gywir ar gyfer yr iaith sy'n cael blaenoriaeth yn y neges e-bost; • Bydd angen i destun a fydd yn cael ei ychwanegu (llofnodion, ymwadiadau ac ati) fod yn ddwyieithog neu'n cyd-fynd ag iaith y neges e-bost; • Rhaid i'r atodiadau gyd-fynd â'r iaith ac yn nhrefn blaenoriaeth y dewis iaith. 	
7.5	Bydd cynnwys dwyieithog yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer offer hygyrchedd.		Pan fydd cynnwys yn cael ei ddarparu mewn allbwn electronig (dogfen, neges e-bost ac ati) yn ddwyieithog, mae'n hanfodol bod cyfarwyddyd ar gyfer offer hygyrchedd (fel darllenwyr sgrin) yn cael ei blannu, ee 'neidio i'r testun Cymraeg isod' ac ati.	

8. Gwybodaeth ddaeryddol—ystyriaethau iaith

Pan fydd rhaglen yn defnyddio mapiau, cyfeiriadau a gwybodaeth ddaeryddol arall, mae angen iddi ystyried yr amrywiadau (nodyn, nid yw'r rhain yn gyfieithiadau uniongyrchol fel rheol) mewn enwau lleoedd ym mhob iaith.

Id	Gofynion	Blaenoriaeth	Manylion	Nodwch yma sut byddwch chi'n cyflawni hyn
8.1	Rhaid i ddata a fydd yn cael ei roi ar ffurf troshaen ar fapiau sy'n iaith-sensitif fod ar gael ym mhob iaith gyda'r iaith gywir yn cael ei defnyddio ar gyfer yr iaith sydd wedi cael ei dewis.		<p>Bydd rhaglenni yn aml yn rhoi symbolau, delweddau, testun ac adnoddau eraill sydd â chynnwys ieithyddol fel troshaen ar fapiau. Rhaid i'r wybodaeth yma fod yn yr un iaith â gweddill y rhyngwyneb.</p> <p>Mae hyn hefyd yn berthnasol i allweddi, cyfarwyddiadau ac unrhyw adnoddau eraill sy'n ymwneud â'r map (er bod hyn yn dod o dan ofynion eraill hefyd).</p>	
8.2	Rhaid i unrhyw fapiau a ddefnyddir gynnwys enwau llefydd dwyieithog cymaint ag y bo modd.		<p>Mae'r gofyniad hwn wedi'i gyfyngu yn ôl y mapiau digidol sydd ar gael gydag enwau llefydd dwyieithog a/neu Gymraeg yn unig.</p> <p>Dylid defnyddio'r rhain pryd bynnag y byddant ar gael.</p>	
8.3	Defnydd o Ffeiliau Cyfeiriad Cod Post Cymreig (PAF).		<p>Mae Ffeiliau Cyfeiriadau Cod Post (PAF), GeoPlace ar gael ar gyfer amrywiadau Cymraeg a Saesneg o gyfeiriadau yng Nghymru.</p> <p>Pan ddefnyddir y Ffeil Cyfeiriadau Saesneg i chwilio, i ddilysu neu i brosesu cyfeiriadau mewn ffordd arall, mae hefyd angen defnyddio'r Ffeil Cyfeiriadau Cymraeg i sicrhau bod amrywiad Cymraeg o'r cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio yn y rhyngwyneb defnyddiwr Cymraeg, ar gyfer gohebiaeth drwy'r Gymraeg ac ar gyfer dilysu cyfeiriadau Cymraeg.</p>	